



Cyfeirnod: 605A2016

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2016

Adroddiad ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol – dyfyniad o Lawlyfr Staff Swyddfa Archwilio Cymru ar absenoldeb rhiant a rennir a thâl rhiant a rennir

- 1 Yn unol â Rheoliad 8 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud trefniadau ar gyfer asesu'r effaith y mae eu polisiau a'u harferion arfaethedig yn debygol o'i chael ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, monitro'r cyfryw effeithiau a chyhoeddi adroddiadau ar y cyfryw asesiadau. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â'r trefniadau hynny.
- 2 Mae ein trefniadau asesu effaith hefyd yn ystyried p'un a yw ein polisiau a'n harferion arfaethedig yn torri hawliau dynol a ph'un a ydynt yn achub ar gyfleoedd priodol i hyrwyddo hawliau dynol.

Diben y polisi

- 3 Prif nod yr adran ar Absenoldeb Rhiant a Rennir (SPL) a Thâl Rhiant a Rennir (ShPP) yn Llawlyfr Staff Swyddfa Archwilio Cymru yw helpu staff i roi hysbysiadau ynghylch SPL a chynorthwyo Swyddfa Archwilio Cymru i ymateb i'r cyfryw hysbysiadau mewn ffordd gyson yn unol â Rheoliadau Absenoldeb Rhiant a Rennir 2014. Mae'r rheoliadau hynny yn rhoi hawl gyfreithiol newydd i rieni cymwys babanod y disgwylir iddynt gael eu geni neu blant a gaiff eu rhoi i'w mabwysiadu ar 5 Ebrill 2015 neu wedi hynny, er mwyn rhoi'r cyfle i'r ddau riant ystyried y trefniadau gorau i ofalu am eu plentyn yn ystod ei flwyddyn gyntaf.
- 4 Mae'r polisi hefyd yn cydnabod y cysylltiad rhwng SPL a'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, yn enwedig o ran rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, ac mae'n ein helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal.
- 5 Mae'r polisi'n berthnasol i bob aelod o staff cymwys Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ystyried cymryd SPL ac ShPP.

Crynodeb o'r camau a gymerwyd i gynnal yr asesiad, gan gynnwys y wybodaeth a ystyriwyd

- 6 Mae'r prif gamau a gymerir i gynnal yr asesiad fel a ganlyn:
- ymgysylltu ag unigolion sy'n cynrychioli buddiannau pobl â nodweddion gwarchoddedig er mwyn llywio'r camau canlynol;
 - ystyried pa mor berthnasol yw'r polisi i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a, lle y bo'n berthnasol, effaith debygol y polisi ar allu Swyddfa Archwilio Cymru i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno;
 - ystyried pa mor berthnasol yw'r diwygiadau i'r llawlyfr staff i hawliau dynol; p'un a oes unrhyw achosion o dorri rheolau a ph'un a achubwyd ar gyfleoedd priodol i gefnogi hawliau dynol;
 - ystyried effaith hysbys neu debygol y polisi ar grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig;
 - ystyried pa wybodaeth arall y dylid ei chasglu er mwyn llywio'r asesiad o effaith a chaniatáu proses fonitro barhaus; ac
 - ystyried pa gamau neu benderfyniadau y dylid eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad gan gynnwys, yn benodol, addasu'r polisi neu roi'r gorau i'w weithredu.

Canlyniadau'r asesiad a'r penderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas â'r canlyniadau

Ymgysylltu

- 7 Mae'r rheolwyr wedi ymgysylltu â Grŵp Buddiannau Cydraddoldeb Swyddfa Archwilio Cymru (panel o staff sy'n cynrychioli buddiannau staff sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig) drwy geisio sylwadau ar y testun newydd y bwriedir ei gynnwys yn y Llawlyfr Staff. Mae'r Grŵp Buddiannau Cydraddoldeb yn cefnogi'r testun newydd hwn.

Perthnasedd y polisi i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a hawliau dynol

- 8 Dylai'r polisi helpu i egluro cymhwysedd a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am SPL i staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hyn yn helpu i weithredu'r rheoliadau, drwy helpu dynion i arfer yr opsiwn o ymgymryd â'r brif rôl o ofalu am eu plentyn yn ystod ei flwyddyn gyntaf neu rannu'r rôl honno o fewn y teulu. Mae hyn yn bwysig o ran mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhywedd, yn enwedig y dybiaeth y bydd merched yn cymryd amser i ffwrdd o'r gweithle i fagu plant, sy'n rhwystro menywod rhag symud ymlaen yn eu gyrfaedd yn ôl pob golwg.
- 9 Mae'r polisi hefyd yn helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran nodweddion gwarchoddedig eraill gan fod y rheoliadau'n gymwys i bob math o drefniadau teuluol, gan gynnwys cyplau o'r un rhyw.
- 10 Drwy helpu'r sefydliad i gydymffurfio â'r rheoliadau, mae gan y polisi y potensial hefyd i feithrin cydberthnasau da o ran newid y canfyddiad o rolau dynion a menywod yn y gweithle a'r cartref. Gallai caniatáu i'r ddau riant chwarae rôl weithredol a chyfartal yn ystod blwyddyn gyntaf plentyn yn y teulu helpu i feithrin gwell dealltwriaeth rhwng dynion a menywod o'r heriau sy'n gysylltiedig â gofalu am blant a mynd i'r afael ag unrhyw ragfarn sy'n gysylltiedig â hynny.
- 11 Nid yw'r polisi'n torri hawliau dynol. Mae'n helpu i ategu Erthygl 12 (Hawl i briodi a chychwyn teulu).

Effaith debygol

- 12 Mae'r polisi'n berthnasol i nodweddion gwarchoddedig penodol, gan gynnwys rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, a beichiogrwydd a mamolaeth. Effaith fwriadedig y polisi yw bod cyfrifoldebau gofal yn cael eu rhannu'n fwy gan helpu i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da, fel y nodwyd uchod. Ystyriwn fod y polisi yn debygol o gael rhywfaint o'r effaith fwriadedig.
- 13 Nid ystyriwn y bydd y polisi yn cael unrhyw effaith wahaniaethol nac yn torri hawliau dynol.

Gwybodaeth bellach a monitro

- 14 Os bydd staff yn dewis arfer eu hawliau i gael absenoldeb rhiant a rennir a thâl rhiant a rennir, bydd yn rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau ei bod yn cymhwyso'r polisi mewn ffordd deg a chyson wrth ddelio â phob cais cymwys am SPL. Er mwyn hwyluso'r broses fonitro, bydd yn ofynnol i'r adran adnoddau dynol gofnodi pob cais am SPL, yn cynnwys y rhesymau dros beidio â chymeradwyo cais am gyfnod o absenoldeb a rennir nad yw'n barhaus (gweler Pennod 4 o'r Llawlyfr Staff, paragraff 89).

Camau neu benderfyniadau i'w cymryd o ganlyniad i'r asesiad

- 15 Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â Rheoliadau Absenoldeb Rhiant a Rennir 2014, ac mae polisi Swyddfa Archwilio Cymru o gefnogi hynny drwy osod testun newydd yn y Llawlyfr Staff yn gydnaws â'r cyfryw broses gydymffurfio. Felly, mae'n briodol bwrw ymlaen â'r polisi.
- 16 Nododd yr asesiad a gynhaliwyd gennym fod angen gwneud y newidiadau canlynol i'r Llawlyfr Staff ac mae'r newidiadau hynny bellach wedi'u gwneud:
 - mae adran 'ystyriaethau eraill' wedi'i hychwanegu, sy'n nodi manylion SPL a gwahaniaethu yn unol â chanllawiau ACAS.
 - mae'r polisi'n nodi ei bod yn ofynnol i'r adran adnoddau dynol gadw cofnod o'r holl geisiadau ar gyfer SPL, yn cynnwys unrhyw resymau dros beidio â chymeradwyo cais am gyfnod o absenoldeb a rennir nad yw'n barhaus. Mae angen cynnwys y gofyniad hwn er mwyn helpu Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro effaith y polisi a'r ffordd y caiff ei weithredu.

Donna Fanariotis

Arbenigwr ar y Gyfraith a Moeseg

26 Medi 2016